


## Dysgu yn y cartref – Blwyddyn 1

Wythnos: 01.6.20 – 05.6.20

Cofiwch gysylltu os byddwch angen cymorth.

Cofiwch, nid oes angen i chi gyflawni pob un o'r tasgau. Syniadau yn unig a geir yma.

n.roberts@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

m.wigley@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

L. jones@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

**Tasg ysgrifennu:** Mae ansoddeiriau yn eiriau sy'n disgrifio. Dewiswch un o'r môr ladron ar y daflen. Trafodwch gydag aelod o'r teulu sut mae'n edrych. Disgrifiwch mewn geiriau neu mewn brawddegau llawn sut mae'r môr leidr yn edrych. Beth am roi enw i'ch môr leidr? Cofiwch fod angen prif lythyren ar ddechrau pob enw.





Darluniwch fap trysor. Rhowch X i ddangos ble mae'r trysor wedi'i guddio. Efallai y gallech ddefnyddio cyfesurynnau a dysgu pwyntiau'r cwmpawd.









Cofiwch ddarllen yn gyson a gwrando ar storiau Cymraeg yn cael eu darllen ar 'Youtube'.



Roedd yn rhaid i fôr-ladron wneud llawer o waith ar fwrdd y llong. Gofynnwch i oedolyn os cewch chi helpu gyda'r gwaith tŷ. Ysgrifennwch restr o'r hyn rydych chi'n ei wneud. Dyma rhai syniadau...



Beth am helpu o amgylch y tŷ?

Rhowch ✓ ar ôl cyflawnu'r dasg

| Tasgiau | |
|---|---|
| Tacluso'r llofft | |
| Golchi'r llestri/gwagu'r peiriant llestri | |
| Sychu'r llestri (gwagu'r peiriant llestri) | |
| Rhoi trefn ar y silff lyfrau | |
| Gosod y bwrdd bwyd | |
| Clirio'r bwrdd bwyd | |
| Rhoi'r dillad ar y lein | |
| Gwneud y gwely yn y bore | |
| Rhoi trefn ar fy nheganau | |
| Mynda'r anifail anwes am dro | |
| Defnyddio'r peiriant sugno llwch | |
| Plygu a threfnu fy nillad | |
| Paratoi pryd o fwyd | |



Ymarfer symiau adio a thynnu rhifau 1 a 2 ddigid




**Tasg mathemateg: Arian**

Dewch o hyd i'r darnau arian canlynol: 1c, 2c, 5c, 10c, 20c, 50c, £1.











Ewch ati i greu siop. Rhowch brisiau ar eich nwyddau. Defnyddiwch y darnau cywir o arian i dalu am y nwyddau i gychwyn ac yna gallwch ymarfer rhoi newid.

## Beth am ...?



- wrando ar storiau Cymraeg yn cael eu darllen ar 'Youtube'.
- wylio rhaglenni Cymraeg ar wefan S4C clic (Cyw).
- ddysgu a chanu caneuon Cymraeg ar 'Youtube'.

Côd 'Twinkl' am ddim: UKTWINKLHELPS

**Tasg Greadigol – Celf**



Ewch ati i ddysgu cân a dawns arbennig Ben Dant y mor-leidr! Gallwch glicio ar y linc isod i weld Huw, un o gyflwynwyr Cyw yn dysgu'r gân a'r ddawns.. Os nad ydych eisiau clicio ar y linc gallwch deipio "Dewch i ddawnsio Ahoi Huw S4C" ar wefan YouTube.

https://www.youtube.com/watch?v=gOusrwMdRNU

Byddai'n wych eich gweld yn perfformio eich cân mewn llong môr ladron allan yn yr ardd! Gallwch ddefnyddio bocsys, neu fasged ddillad neu unrhyw beth arall i greu eich llong. Mwynhewch!










**Written task:** Adjectives are describing words. Choose on of the pirates on the sheet. Discuss how your chosen pirate looks with a family member. Write words or sentences to describe your chosen pirate. How about giving your pirate a name? Remember to use a capital letter at the beginning of every name.





Remember to read regularly and listen to Welsh stories being read on 'Youtube'.



## Maths task: Money

Find the following coins: 1c, 2c, 5c, 10c, 20c, 50c, £1.











Create a shop. Put prices of the goods in your shop. To begin, use the correct coins to pay for items in your shop. Then practice giving change.

## Learning in the home – Blwyddyn 1

Week: 01.6.20 – 05.6.20

Please contact us if you need any help.

There is no need to complete all these tasks.

They are only ideas.

n.roberts@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

m.wigley@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

L.jones@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Pirates had to do many chores around the ship. Ask a grown up if you can help with chores around the house. Write a list of what you have done.

Here are some ideas. . .



Beth am helpu o amgylch y tŷ?

Rhowch ✓ ar ôl cyflawnu'r dasg

| Tasgiau | |
|---|---|
| Tacluso'r llofft | |
| Golchi'r llestri/gwagu'r peiriant llestri | |
| Sychu'r llestri (gwagu'r peiriant llestri) | |
| Rhoi trefn ar y silff lyfrau | |
| Gosod y bwrdd bwyd | |
| Clirio'r bwrdd bwyd | |
| Rhoi'r dillad ar y lein | |
| Gwneud y gwely yn y bore | |
| Rhoi trefn ar fy nheganau | |
| Mynd a'r anifail anwes am dro | |
| Defnyddio'r peiriant sugno llwch | |
| Plygu a threfnu fy nillad | |
| Paratoi pryd o fwyd | |



## What about . . .?



- listening to stories being read in Welsh on 'YouTube'.
- watching Welsh television programmes on S4C clic (Cyw).
- learning and singing Welsh songs on 'YouTube'.

Code for Twinkl – UKTWINKLHELPS

Draw a treasure map. Add an X to show where the treasure is hidden. Maybe you could try using coordinates and learn the points of the compass.









Practice adding and subtracting 1 and 2 digit numbers.




## Creative activity – Art



Learn Ben Dant's special song and dance! Huw, one of S4C's presenters will show you how on You Tube. You can type in "Dewch i ddawnsio Ahoi Huw S4C" on YouTube, or click on the link below.

https://www.youtube.com/watch?v=gOusrwMdRNU

It would be great seeing you perform your song and dance in a pirate ship in your garden! You can use cardboard boxes, a washing basket or anything else! Enjoy!





